

## COVID-19: Newidiadau i Broses Gofrestru AGIC

Mae ceisiadau cofrestru ar gyfer darparwyr a rheolwyr newydd nad ydynt yn ymwneud â chofrestriadau COVID-19<sup>1</sup> yn parhau yn unol â'r drefn arferol. Mae rhagor o wybodaeth am gofrestriadau COVID-19 ar gael ar ein [gwefan](#).

Fodd bynnag, mae newidiadau dros dro wedi cael eu gwneud i broses gofrestru AGIC o ganlyniad i COVID-19.

Nod y newidiadau hyn yw sicrhau bod staff AGIC a phobl sy'n ceisio cofrestru ag AGIC yn cael eu diogelu rhag y risg o haint a'u bod yn cydymffurfio â mesurau cadw pellter cymdeithasol er mwyn helpu i leihau cyfraddau trosglwyddo'r feirws. Maent hefyd yn galluogi AGIC i barhau i asesu ceisiadau cofrestru mewn ffordd drylwyr a chymesur.

Mae newidiadau wedi cael eu gwneud i'r agweddau canlynol ar broses gofrestru AGIC:

- **Cyfweliadau 'Person Cymwys' â Rheolwyr Cofrestredig**

Caiff pob cyfweliad 'person cymwys' â rheolwyr cofrestredig ei gynnal drwy gyswllt fideo.

Byddwn yn cysylltu â chi i drefnu dyddiad ac amser cyfleus i gynnal eich cyfweliad. Ar ôl cytuno ar ddyddiad ac amser eich cyfweliad, byddwn yn anfon cadarnhad o'r manylion atoch ynghyd â gwybodaeth am sut i ddefnyddio'r cyswllt fideo.

Caiff y cyfweliadau eu cynnal gan o leiaf ddau aelod o Dîm Cofrestru AGIC o hyd.

**Noder: Dylech wneud trefniadau i ddefnyddio ystafell dawel a phreifat ar gyfer eich cyfweliad er mwyn helpu i atal unrhyw ymyrraeth.**

- **Ymweliadau cyn cofrestru â safleoedd**

Bydd AGIC yn cynnal asesiadau bwrdd gwaith yn lle ymweliadau cyn cofrestru â safleoedd er mwyn cael sicrwydd ynghylch y trefniadau sydd ar waith i gydymffurfio â'r rheoliadau a'r fframwaith safonau.

---

<sup>1</sup> Mae cofrestriad COVID-19 yn golygu unrhyw 'gais' gan ddarparwr gofal iechyd annibynnol sy'n:

- Bwriadu darparu gwasanaethau sy'n cynnig gallu ac adnoddau gofal iechyd ychwanegol mewn unrhyw ardal; neu
- helpu i reoli COVID-19 neu drin pobl sydd wedi cael y salwch.

Bydd angen i chi gyflwyno copiâu electronig i ni o bolisiâu, gweithdrefnau a thystysgrifau perthnasol rydym yn eu gweld fel arfer yn ystod ymweliadau â safleoedd. Efallai y bydd angen i chi hefyd gyflwyno tystiolaeth ffotograffig a'n tywys o gwmpas yr amgylchedd.

Os bydd angen i chi ein tywys o gwmpas yr amgylchedd drwy gyfrwng fideo, byddwn yn cysylltu â chi i roi gwybod i chi sut y gallwch wneud hyn.

- **Gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS)**

#### **Practisau Deintyddol Preifat**

Os ydych yn gwneud cais am gofrestrriad mewn perthynas â phractis deintyddol preifat, dylech barhau i gael gwiriad manwl gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd drwy eich cyflogwr neu wasanaeth ambarél.

Bydd AGIC yn derbyn copi lliw, wedi'i sganio o'ch tystysgrif fanwl gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (a gyflwynwyd o fewn y tair blynedd diwethaf) drwy e-bost. **Ni** fydd angen i chi anfon y dystysgrif wreiddiol atom drwy'r post. Fodd bynnag, efallai y byddwn yn gofyn am gael gweld y dystysgrif wreiddiol yn ddiweddarach.

Caiff manylion y dystysgrif eu cofnodi a'u cadw yn unol â'n [polisi preifatrwydd](#).

#### **Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol**

Os ydych yn gwneud cais am gofrestrriad mewn perthynas â gwasanaeth gofal iechyd annibynnol (e.e. ysbyty annibynnol, clinig annibynnol neu asiantaeth feddygol annibynnol), **rhaid** i'ch cais am wiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd gael ei wneud (cydlofnodi) drwy AGIC.

Os oes gennych dystysgrif fanwl yn barod yn dilyn cais gennym, byddwn yn derbyn copi lliw, wedi'i sganio o'r dystysgrif (a gyflwynwyd yn ystod y tair blynedd diwethaf) drwy e-bost. Ni fydd angen i chi anfon y dystysgrif wreiddiol atom drwy'r post. Fodd bynnag, efallai y byddwn yn gofyn am gael gweld y dystysgrif wreiddiol yn ddiweddarach.

Caiff manylion y dystysgrif eu cofnodi a'u cadw yn unol â'n [polisi preifatrwydd](#).

Ar gyfer ceisiadau newydd i'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, bydd angen i chi gysylltu ag AGIC a gofyn am ffurflen gais. Yna, bydd angen i chi lenwi'r ffurflen a'i phostio atom. **Ni** fydd angen i chi bostio eich dogfennau adnabod atom. Byddwn yn derbyn copiâu lliw, wedi'u sganio o'ch dogfennau adnabod drwy e-bost.

Yna caiff gwiriadau adnabod eu cynnal drwy gyswllt fideo. Byddwn yn cysylltu â chi i drefnu dyddiad ac amser cyfleus i gynnal y gwiriad adnabod. Ar ôl cytuno ar ddyddiad ac amser eich cyfweiliad, byddwn yn anfon cadarnhad o'r manylion atoch ynghyd â gwybodaeth am sut i ddefnyddio'r cyswllt fideo.

Ar ôl i chi gael eich tystysgrif gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, bydd angen i chi anfon copi lliw, wedi'i sganio o'r dystysgrif atom . **Ni** fydd angen i chi anfon y dystysgrif wreiddiol atom drwy'r post. Fodd bynnag, efallai y byddwn yn gofyn am gael gweld y dystysgrif wreiddiol yn ddiweddarach.

- **Adroddiadau Meddygol gan Ymarferydd Cyffredinol (ar gyfer pobl sy'n gwneud cais am gofrestrriad mewn perthynas â gwasanaethau gofal iechyd annibynnol yn unig)**

Os na allwch gael adroddiad meddygol gan Ymarferydd Cyffredinol, bydd AGIC yn derbyn datganiad gennych ynghylch cyflwr eich iechyd corfforol a'ch iechyd meddwl. Rydym yn gofyn am y wybodaeth hon yn y ffurflen gais i gofrestru ag AGIC.

Efallai y byddwn yn trafod hyn ymhellach yn ystod y cyfweiliad 'person cymwys' â'r rheolwr cofrestredig os ystyrir bod angen gwneud hynny.

- **Cyflwyno Hysbysiadau Statudol (Hysbysiad o Benderfyniad a Hysbysiad o Fwriad) a Thystysgrifau Cofrestru HIW**

### **Hysbysiadau o Fwriad a Hysbysiadau o Benderfyniad**

Bydd AGIC yn parhau i roi gwybod i chi am ganlyniad ein hasesiad o'ch cais drwy gyflwyno Hysbysiadau o Fwriad a Hysbysiadau o Benderfyniad.

Lle bo hynny'n bosibl, byddwn yn anfon y rhain atoch drwy e-bost os ydych wedi rhoi caniatâd i ni wneud hynny.

### **Tystysgrifau Cofrestru AGIC**

Mae'n rhaid i ni barhau i gyflwyno tystysgrifau cofrestru AGIC drwy'r post. Fodd bynnag, o ganlyniad i'r cyfyngiadau presennol sy'n ein hatal rhag mynd i swyddfa AGIC, efallai y bydd oedi cyn y gallwn anfon eich tystysgrifau atoch.

Mae angen i chi gadarnhau eich bod wedi derbyn eich tystysgrifau a byddwn yn gofyn i chi ddarparu cyfeiriad addas i'w hanfon iddo.

### **Mwy o Gyngor a Chanllawiau**

Mae cyngor a chanllawiau ar y ffordd rydym yn asesu ceisiadau i gofrestru â ni ar gael ar ein [gwefan](#). Gallwch hefyd ddod o hyd i'r ffurflenni a'r templedi perthnasol i gwblhau eich cais.

Os oes gennych gwestiynau o hyd, gallwch gysylltu â Thîm Cofrestru AGIC drwy e-bost yn [HIWRegistration@gov.wales](mailto:HIWRegistration@gov.wales). Rydym yn ceisio ymateb i bob ymholiad ynglŷn â chofrestru o fewn 15 diwrnod gwaith a gallwn ymateb yn llawer cynt na hyn fel arfer.